# Cyfarfod ar y cyd: Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Ofal Hosbis a Gofal Lliniarol a Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Angladdau a Phrofedigaeth

## Cofnodion

## 2 Ebrill 2025

Yn bresennol:

| | |
|---|---|
| Mark Isherwood AS (Cadeirydd) | Liz Booyse, Hosbis y Ddinas |
| Matthew Brindley, Hospice UK (Ysgrifennydd) | Natasha Davies, Marie Curie |
| Rebecca Aylott, Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau (NAFD) (Ysgrifennydd) | Irfon Rees, Tŷ Hafan |
| Huw Owen, Tŷ Gobaith / Tŷ Hafan | Lesley Bethell, Cymru Garedig |
| Tracy Jones, Tŷ Hafan | Andrea Powell, Cruse Bereavement |
| Thea Brain, Fforwm Gofal Cymru | Dafydd Huw, Coleg Brenhinol y Seiciatryddion |
| Tomos Evans, Marie Curie | Y Farwnes Ilora Finlay |
| Darren Rutland, Cymdeithas Clefyd Huntingdon (HDA) | Hilary Watson, y Gymdeithas MS |
| Heather Ferguson, AGE Cymru | Jen Mills, Cymdeithas MND |
| Jack Sunderland, Caldecott and Sons | Laura Hugman, Hosbis yn y Cartref Paul Sartori |
| Jodie Beck, Hospice UK | Mari Vaughan-Owen, Dyneiddwyr y DU |
| Lee Barnett, Sandy Bear | Alexander Owen, staff cymorth Aelod o'r Senedd |
| Martin Jones, Sandy Bear | Dr Sarah Davies, Meddyg Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Philip Blatchly, Philip Blatchly & Son (trefnwyr angladdau) | Terry Tennens, Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau Perthynol ac Annibynnol (SAIF) |
| Steven Crane-Jenkins, BASW Cymru | Dr Jason Shannon, Archwilydd Meddygol Arweiniol Cymru |
| Dr Victoria Wheatley, Ymgynghorydd Gofal Lliniarol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Andrew Judd, NAFD |
| Eleanor Hunt, The Woollen Cwtch Company | Rachel Bradburne, NAFD |
| Tyler Troy | Doug Nairn, NAFD |
| Rhys Price, Gwilym C. Price Son & Daughters (trefnwyr angladdau) | Kathy Riddick, Dyneiddwyr y DU |

**Hospice UK** | Cwmni Cyfyngedig drwy warant a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr Rhif 2751549 | Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1014851 ac yn yr Alban Rhif SC041112

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Darren Millar AS | Janet Finch-Saunders AS |
| Jane Dodds AS | Llyr Gruffydd AS |
| Heather Hughes, 2Wish | Verity Sterling, Yr Eglwys yng Nghymru |
| Iestyn Davies, Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru | Andy Goldsmith, Hosbis Plant Tŷ Gobaith / Hope House |
| John Moss, Rheolwr Rhaglen y Fframwaith Profedigaeth Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru | Gethin Rhys, Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru |
| Carol Davies, Cymdeithas Clefyd Huntingdon | Brendan Day, Safon Angladdau Glôb Gwyrddach |
| Paula Williams, Papyrus | Stephen Tom, Phillip Tom & Sons |
| Y Parchedig Nicola Frail, Y Weinyddiaeth Amddiffyn | |

**Gair o groeso gan y Cadeirydd, cofnodion y cyfarfod blaenorol, a materion sy'n codi**

Croesawodd Mark Isherwood AS bawb i'r cyfarfod, gan ddiolch yn benodol i'r siaradwyr gwadd, sef y Farwnes Finlay a Dr Jason Shannon, am roi o'u hamser i roi cyflwyniadau.

Cafodd cofnodion cyfarfod blaenorol y Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth eu cadarnhau gan [ni chafodd enw'r cynigydd ei gofnodi], a'u heilio gan Philip Blatchly.

Rhoddodd Mark Isherwood AS y wybodaeth ddiweddaraf am faterion a oedd yn codi yn sgil gwaith y Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth:

- Yn gyntaf, mae gohebiaeth wedi'i hanfon er mwyn cadarnhau safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch prosiect Comisiwn y Gyfraith ar gladdu ac amlosgi, a hynny yn sgil yr ymgynghoriad cyhoeddus a ddaeth i ben ym mis Ionawr.
- Yn ail, yn dilyn y trafodaethau a gafodd aelodau'r grŵp ynghylch darpariaeth gwasanaethau post-mortem digidol yng Nghymru, mae gohebiaeth wedi'i hanfon at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch natur yr ystyriaeth y gallai awdurdodau lleol fod wedi'i rhoi i ariannu hyn.
- Yn drydydd, yn sgil ymddiheuriad Llywodraeth Cymru yn gynharach eleni i deuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth, ynghylch yr oedi sydd wedi dod i'r amlwg mewn perthynas ag angladdau a'r broses ardystio marwolaethau, mae'r grŵp wedi cytuno i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch yr oedi hyn. Y gobaith yw y bydd y sylwadau a wneir yn y cyfarfod heddiw yn cael eu hadlewyrchu yn yr ohebiaeth hon.

Cafodd cofnodion cyfarfod blaenorol y Grŵp Trawsbleidiol ar Ofal Hosbis a Gofal Lliniarol eu cadarnhau gan Liz Booyse a'u heilio gan Tracy Jones.

Rhoddodd Mark Isherwood AS y wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r grŵp am faterion a gododd yn sgil cyfarfod diwethaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Ofal Hosbis a Gofal Lliniarol:

- Ysgrifennodd y Grŵp Trawsbleidiol at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch yr heriau y mae hosbisau Cymru yn eu hwynebu, darpariaeth gofal lliniarol i blant ledled Cymru, ac effaith 'Ymhellach, yn Gyflymach' ar ddarpariaeth gofal lliniarol a gofal diwedd oes yn y gymuned. Cafwyd ymateb gan yr Ysgrifennydd Cabinet mewn

**Hospice UK** | Cwmni Cyfyngedig drwy warant a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr Rhif 2751549 | Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1014851 ac yn yr Alban Rhif SC041112

perthynas â hosbisau Cymru. Hefyd, ar ôl cyfnod sylweddol o oedi, mae'r Ysgrifennydd Cabinet newydd ddarparu ymateb ynghylch darparu gofal lliniarol i blant, ac effaith 'Ymhellach, yn Gyflymach'. Bydd yr ymateb hwn yn cael ei rannu ag aelodau perthnasol o'r grŵp yn fuan.

**Sbotolau ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) a'i oblygiadau posibl ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes yng Nghymru – Y Farwnes Ilora Finlay**

Rhoddodd y Farwnes Finlay gyflwyniad ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) a'i oblygiadau posibl ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes yng Nghymru.

Materion allweddol a drafodwyd:

- Dywedodd y Farwnes Finlay fod y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), yn dilyn y broses o'i ddiwygio yn ystod y Cyfnod Pwyllgor, wedi cael ei wanhau'n sylweddol, yn enwedig o ran mesurau diogelwch allweddol. Tynnodd sylw at nifer o faterion, gan gynnwys:
    - y newidiadau sydd eu hangen o ran Deddf y GIG
    - rhwystrau o ran y Gymraeg ac ieithoedd eraill a allai effeithio ar gydsyniad
    - yr angen am gyfraith sy'n ddiogel i bawb
    - yr heriau a'r bylchau sy'n bodoli ar hyn o bryd o ran cael mynediad at ofal lliniarol a'r angen inni amddiffyn a gwella'r hyn sydd gennym
    - materion sy'n ymwneud â'r gweithlu gofal lliniarol a'r heriau a allai godi yn y dyfodol os caiff y Bil ei weithredu
    - problemau o fewn y Bil ynghylch y ffaith nad yw meddygon yn gallu gofyn i berson pam ei fod am ddod â'i fywyd i ben
    - cwestiynau ynghylch effeithiolrwydd meddyginiaethau a ragnodir i ddod â bywyd person i ben
- Diolchodd Mark Isherwood AS i Ilora. Dywedodd fod y Grŵp Trawsbleidiol wedi cael gwybod am heriau posibl y Bil o ran siaradwyr Cymraeg. Nododd hefyd fod y Senedd wedi pleidleisio mewn egwyddor yn erbyn marw â chymorth y llynedd.
- Disgrifiodd Dr Victoria Wheatley yr heriau sydd wedi codi wrth geisio recriwtio ym maes gofal lliniarol yng ngorllewin Cymru. Nid oes gan chwarter y bobl fynediad at wely mewn hosbis. Dywedodd fod angen dyrannu mwy o adnoddau i'r sector gofal lliniarol.
- Dywedodd Dr Sarah Davies fod angen rhoi sylw arbennig i'r bobl agored i niwed y mae'r sector yn gofalu amdanynt, yn enwedig wrth ystyried newidiadau i'r Ddeddf Hunanladdiad. Tynnodd sylw hefyd at yr heriau y mae gwasanaethau gofal lliniarol yng ngogledd Cymru yn eu hwynebu ar hyn o bryd.
- Dywedodd Dr Jason Shannon y gallai archwilwyr meddygol chwarae rôl allweddol o ran deall profiadau pobl o'r broses o farw â chymorth pe bai'r Bil yn cael ei gyflwyno. Pe bai'r Bil yn

cael ei basio, byddai angen newid y rheoliadau presennol sy’n gysylltiedig â hysbysu marwolaeth.

- Dywedodd y Farwnes Finlay nad oes gan Archwilwyr Meddygol rôl yn y Bil ar ei ffurf bresennol. Tynnodd sylw at bryderon ynghylch y ffaith na fyddai camgymeriadau yn cael eu canfod pe bai'r ddeddfwriaeth bresennol yn cael ei chyflwyno.
- Disgrifiodd Eleanor Hunt o The Woollen Cwtch Company ei phrofiadau gwael o ran ceisio sicrhau gofal lliniarol a gofal diwedd oes i'w thad yng nghanolbarth Cymru. Gofynnwyd iddo lofnodi cytundebau ‘peidiwch â dadebru’ yn rheolaidd pan nad oedd yn fodlon gwneud hynny. Er nad oedd unrhyw fwriad yn perthyn i hyn, roedd yn teimlo fel gorfodaeth.
- Dywedodd Dafydd Huw o Goleg Brenhinol y Seiciatryddion fod gan y coleg safbwynt niwtral ar y Bil, ond bod ganddo bryderon ynghylch rhwystrau iaith.
- Ymatebodd y Farwnes Finlay gan ddweud ei bod yn pryderu bod dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth seiciatryddion o'r Bil yn gyfyngedig.

**Diweddariad ynghylch y Cynllun Archwilwyr Meddygol yng Nghymru a sut mae'n cyd-fynd â'r strategaeth ehangach ar gyfer gofal profedigaeth – Dr Jason Shannon, Archwilydd Meddygol Arweiniol Cymru**

Materion allweddol a drafodwyd:

- Nododd Dr Jason Shannon ei bod yn bwysig rhoi cyfle i deuluoedd sy’n galaru ofyn cwestiynau am achos y farwolaeth dan sylw ac i godi unrhyw broblemau neu bryderon sydd ganddynt. Nododd fod mwy o deuluoedd sy’n galaru yng Nghymru yn manteisio ar y cyfle i siarad â'r Archwilydd Meddygol (ME) am eu pryderon gofal na’r hyn a welir mewn unrhyw fan arall yn y DU. Dywedodd Dr Jason Shannon fod y gwasanaeth yn rhoi llais i bobl sydd wedi dioddef profedigaeth, a bod y gwasanaeth wedi'i warantu a'i sefydlu drwy annibyniaeth a didueddrwydd yr Archwilydd Meddygol.

- Roedd Dr Jason Shannon yn cydnabod bod yr amser canolrifol ar gyfer cofrestru marwolaeth yng Nghymru yn rhy uchel ar hyn o bryd, a’i fod wedi bod felly ers tua mis Rhagfyr 2024, pan ddechreuodd y trafferthion sy’n effeithio ar y system gyfan. Nododd fod Llywodraeth Cymru yn edrych ar y problemau a’r datrysiadau posibl.

- Gofynnodd Rachel Bradburne a fyddai modd i’r NAFD a'r sector ehangach wneud unrhyw beth pellach i gynorthwyo’r broses, fel rhanddeiliaid, yn ogystal â'r gwaith ymgysylltu sy’n cael ei wneud â Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Dywedodd Dr Jason Shannon fod trefnwyr angladdau, yn benodol, yn gallu darparu cymorth drwy sicrhau bod ganddynt wybodaeth berthnasol am y broses o gofrestru marwolaethau, gan gynnwys rôl a chyfrifoldebau'r Archwilydd Meddygol. Gall y wybodaeth hon lywio eu gwaith o ran cefnogi teuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth.

- Gofynnodd Mark Isherwood AS am y sensitifrwydd sy’n gallu bod yn gysylltiedig â materion ffydd a materion diwylliannol. Dywedodd Dr Jason Shannon fod gwasanaeth yr Archwilydd Meddygol yn cydnabod nifer o sefyllfaoedd posibl lle gallai fod angen prosesu achosion ar frys, gan gynnwys oherwydd gofynion ffydd. Dywedodd fod y gwasanaeth yn rheoli'r achosion hynny yn llwyddiannus.

- Soniodd Dr Jason Shannon a Dr Sarah Davies am yr heriau sy'n bodoli o ran lliniaru materion amserlennu a chapasiti sy'n gysylltiedig ag Ymarferwyr a fu'n Gweini ac Archwilwyr Meddygol, a bod digideiddio Tystysgrifau Meddygol Achos Marwolaeth yn debygol o helpu gyda'r heriau hyn, yn ogystal â datrys problemau rhyng-gysylltedd o fewn byrddau iechyd.

- Dywedodd Rhys Price fod gan bawb rôl i'w chwarae o ran symleiddio a gwella'r broses ar gyfer teuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth. Nododd hefyd fod swyddogion yr Archwilwyr Meddygol yn ceisio helpu, ond bod trefnwyr angladdau yn aml yn cael anawsterau gyda system ffôn yr Archwilydd Meddygol, sef y 'goeden ffôn', wrth geisio cael y wybodaeth ddiweddaraf ar ran teuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth. Mae trefnwyr angladdau yn gweithredu fel cynrychiolwyr enwebedig ar gyfer y teuluoedd hynny. Nododd fod diffyg dealltwriaeth ymhlith teuluoedd ynghylch pam mae pethau'n cymryd cyhyd, a bod angen gwell ymwybyddiaeth o'r broses ymhlith meddygon. Cytunodd Dr Jason Shannon i rannu'r sylwadau ynghylch y 'goeden ffôn'.

- Gofynnodd Eleanor Hunt am y disgwyliadau o ran oedi yn ystod y gaeaf a'r gwaith cynllunio sy'n cael ei wneud. Soniodd Jack Sunderland, trefnydd angladdau sydd wedi'i leoli yn Wrecsam, am y gymhariaeth rhwng gwasanaethau Archwilwyr Meddygol yng Nghymru a Lloegr yng nghyd-destun cyfathrebu. Diolchodd Dr Jason Shannon i Jack am ei sylwadau ar y sefyllfa drawsffiniol, gan gydnabod yr heriau sylweddol sydd wedi dod i'r amlwg, yn enwedig yn ystod y gaeaf, pan arweiniodd bwysau at gyfnodau o oedi wrth gofrestru marwolaethau.

- Cytunodd Mark Isherwood AS a Rebecca Aylott ar gamau gweithredu parthed cofnodi materion sy'n ymwneud â digideiddio, cysylltedd systemau a chynllunio ar gyfer y gaeaf, a hynny drwy waith dilynol gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Gwnaethant gytuno hefyd i wahodd rywun sy'n cynrychioli crwneriaid i gyfarfod yn y dyfodol.

**Unrhyw fater arall**

- Cytunodd y grŵp y byddai cynrychiolydd o Papyrus yn rhoi cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth.

- Cadarnhaodd Mark Isherwood AS y byddai cyfarfodydd nesaf y Grwpiau Trawsbleidiol yn debygol o gael eu cynnal ym mis Gorffennaf 2025, ac y byddai'r manylion hynny'n cael eu cadarnhau a'u rhannu maes o law gan yr ysgrifenyddion priodol.

**Hospice UK** | Cwmni Cyfyngedig drwy warant a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr Rhif 2751549 | Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr Rhif 1014851 ac yn yr Alban Rhif SC041112